MATT FREE

Mae Matt Free wedi rhoi o'i amser i wirfoddoli a chefnogi clwb Rhondda Paddlers, a'i aelodau, ers dros 25 mlynedd. Ar hyn o bryd Matt yw'r Trysorydd ac Ysgrifennydd Gemau, ac mae hefyd yn trefnu achlysuron a chystadlaethau megis Welsh 4's a'r Cynghreiriau i Bobl Ifainc. Ochr yn ochr â'r cyfrifoldebau yma, mae Matt yn dod o hyd i offer, ac yn cynnal a chadw'r offer yma, yn ogystal â sicrhau cyllid grant hanfodol i gefnogi twf parhaus y clwb.

Mae Matt wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu timau polo canŵ yn y clwb, gan helpu i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan. Dim ond chwe aelod oedd yn rhan o'r clwb pan gafodd ei sefydlu, erbyn hyn mae tua 50 o bobl yn chwarae'n rheolaidd. Diolch i'w ymrwymiad a'i frwdfrydedd, mae gan glwb Rhondda Paddlers timau polo canŵ sy'n ffynnu i fenywod, i bobl hŷn ac i bobl ifainc. Mae'r timau iau yn hyfforddi ac yn cystadlu'n rheolaidd ledled y wlad.

Mae effaith gwaith gwirfoddol Matt yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r clwb ei hun. Mae chwaraewyr sydd wedi'u datblygu yn rhan o glwb Rhondda Paddlers wedi cynrychioli Cymru mewn twrnameintiau rhyngwladol, gyda rhai yn cael eu dewis i gynrychioli Prydain Fawr. Drwy ei ymroddiad, ei arweinyddiaeth a'i angerdd dros y gamp, mae Matt wedi helpu i ddatblygu cenedlaethau o unigolion sy'n mwynhau padlo, yn ogystal â chreu cyfleoedd sy'n parhau i ysbrydoli a chefnogi pobl o bob oed.



Chwaraeon RhCT
SportRCT

GWIRFODDOLWR Y MIS

TACHWEDD 2026